**CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 25 Medi, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd M. Lewis a H. Williams.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr N. Mackie (Cadeirydd).

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Is-Gadeirydd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M. Michael (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar gynnwys datganiad o ddiddordeb gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Mackie, ynghylch Eitem Agenda: 7 – Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2023/ 24. Natur ei buddiant oedd ei bod yn lesddeiliad eiddo a allai elwa o bosibl o arian grant mewn perthynas ag atgyweirio materion diogelwch tân i lesddeiliaid nad ydynt yn eu gwneud. Roedd hwn yn fuddiant personol, nid oedd yn rhagfarnu.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. TROSOLWG A DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi a chytuno ar gynnwys yr adroddiad.

(2) Bod Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2024-25 yn cael ei gymeradwyo.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Clefydau Trosglwyddadwy 2024-25, pe bai angen.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir drefniadau cadarn ar waith i gyflawni ei rwymedigaethau o ran Clefydau Trosglwyddadwy.

(3) Awdurdodi mân newidiadau, pe cyfyd yr angen, yn ystod oes y Cynllun Clefydau Trosglwyddadwy, heb fod angen dod ag ef yn ôl i'r Cyd-Bwyllgor

EITEM AGENDA 5. CYNLLUN GWASANAETH GORFODI CYFRAITH BWYD A BWYD ANIFEILIAID Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR 2024/25 (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod Cynllun Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2024/25 yn cael ei gymeradwyo.

(2) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i Gynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2024/25 pe bai angen.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Er mwyn i'r Awdurdodau Lleol partner allu gosod eu Cynllun Gorfodi ac wedyn yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

(2) Galluogi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i ddiweddaru'r Cynllun pe bai unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod dan sylw.

EITEM AGENDA 6. ADOLYGIAD O'R GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR – POLISI CYDYMFFURFIAETH A GORFODAETH (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodi Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir diwygiedig a'r Atodiadau cysylltiedig, i'w defnyddio gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(2) Bod mabwysiadu'r Polisi diwygiedig gan y Cynghorau priodol ar gyfer y swyddogaethau hynny a gyflawnir gan y Cydwasanaeth ar eu rhan yn cael ei argymell a'i gymeradwyo.

(3) Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud mân newidiadau gweinyddol a diweddariadau i'r Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodaeth diwygiedig unwaith y caiff ei weithredu, pe bai angen.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Polisi yn parhau i adlewyrchu cylch gorchwyl llawn y Gwasanaeth a Rennir a'i fod yn parhau'n gyfredol, yn berthnasol ac yn addas i'r diben.

(2) Sicrhau bod y Polisi diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan bob un o'r tri Awdurdod Lleol partner.

(3) Sicrhau yn ystod oes y Polisi diwygiedig (h.y. cyn ei adolygiad llawn nesaf), y gellir ymgorffori mân ddiweddariadau a diwygiadau heb fod angen gofyn am gymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor ar bob achlysur.